**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Rhagfyr 2016**

## DATBLYGIADAU O RAN DARPARU ASEDAU CYDNERTHEDD CENEDLAETHOL YNG NGOGLEDD CYMRU

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am newidiadau o ran darparu asedau cydnerthedd cenedlaethol yng Ngogledd Cymru.

## Cefndir

2 Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol yn yr Unol Daleithiau ar 9 Medi 2001, fe wnaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig (D.U.) ddarparu cyllid i ddatblygu nifer o asedau a elwir yn Asedau Cydnerthedd Cenedlaethol i ddelio ag ymosodiadau terfysgol posibl yn y D.U. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau (IRUs), a ddarparwyd er mwyn gallu diheintio niferoedd mawr o bobl ar ôl gollyngiad cemegol neu fiolegol ar raddfa fawr
- Timau Chwilio ac Achub Trefol er mwyn cynorthwyo i achub a darganfod unigolion sy'n sownd ar ôl i adeilad ddymchwel
- Swyddogion Canfod, Adnabod a Monitro i ganfod, adnabod a monitro gwahanol halogyddion cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear sydd wedi cael eu rhyddhau
- Pympiau Cyfaint Mawr (HVP), sy'n gallu symud llawer o ddŵr dros bellteroedd mawr.

3 Cafodd yr asedau yma eu dosbarthu ar sail rhagdybiaethau cynllunio yn ymwneud â lle'r oedd ymosodiadau terfysgol yn fwyaf tebygol o ddigwydd. Roedd hyn yn cynnwys canolfannau trafnidiaeth mawr, canolfannau dosbarthu cyfleustodau critigol, a chanolfannau poblogaeth mawr ledled Cymru a Lloegr.

4 O ran yr asedau cydnerthedd cenedlaethol a ddyrannwyd i Gymru, cafodd 2 o'r 7 IRU ac 1 o'r 4 HVP eu darparu i GTAGC. Gosodwyd yr IRUs ym Mangor a Glannau Dyfrdwy a gosodwyd yr HVP yn Llandudno.

5 Drwy ddyrannu'r asedau'n genedlaethol, roedd y cyllid cyfalaf a refeniw i ddarparu a chynnal yr asedau a hyfforddi a chynnal cymhwysedd y staff yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y D.U. yn Lloegr a chan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.

## Gwybodaeth

6 Yn 2010, cafodd perchnogaeth ar yr asedau cydnerthedd cenedlaethol ei throsglwyddo gan Lywodraeth y D.U. a Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau tân ac achub unigol. Trosglwyddwyd yr asedau mewn modd gwahanol yng Nghymru nag yn Lloegr lle'r oedd adran 8 o'r cytundeb yn dweud y gallai'r ATAau yng Nghymru ddychwelyd y berchnogaeth ar yr asedau cydnerthedd cenedlaethol i Lywodraeth Cymru petai'r cyllid i'r ATAau yn cael ei ostwng.

7 Diwygiwyd y rhagdybiaethau cynllunio yn ddiweddar, ac mae'r risgiau diweddaraf a ganfyddir ledled y D.U. wedi newid. Mae hyn yn golygu fod llai o angen am IRUs oherwydd bod natur ymosodiadau terfysgol yn newid. Mae Lloegr eisoes wedi lleihau nifer yr IRUs o 63 i 42, ac yng Nghymru mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo bod y nifer yn cael ei ostwng o 7 i 4.

8 Mae 3 yn llai o IRUs yng Nghymru yn golygu y bydd 1 IRU yn cael ei dynnu allan o wasanaeth yng Ngogledd Cymru. Mae swyddogion o'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion o Lywodraeth Cymru, cydweithwyr o Loegr a'r cyrff cynrychioliadol, ac maent wedi gweld nad oes angen yr IRU yng Nglannau Dyfrdwy mwyach. Felly, bydd yn cael ei dynnu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma.

9 Y cynnig yw bod y cyfarpar sy'n cael ei gadw ar yr IRU diangen yn cael ei gadw fel stoc erbyn y bydd angen asedau newydd yn y dyfodol, ac i'w defnyddio, pan fo'n briodol, ar gyfer hyfforddiant parhaus.

10 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Gwasanaeth ar ôl i'r cerbyd fynd.

**Argymhelliad**

11 Bod yr Aelodau'n nodi'r canlynol

(i) canlyniad dadansoddiad y rhagdybiaethau cynllunio newydd a'r trafodaethau ledled y D.U. ynglŷn â lleoliad IRUs;

(ii) bod yr IRU yng Nglannau Dyfrdwy yn cael ei dynnu allan o wasanaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.